

# Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
[ceredigion.gov.uk](http://ceredigion.gov.uk)

07/11/23

## **Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Safonau a Moeseg yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 05 Mehefin 2023 (Tudalennau 5 - 12)**
- 3. Materion yn Codi**
- 4. Cofnod o Gamau Gweithredu (Tudalennau 13 - 22)**
- 5. Ystyried ceisiadau am ollyngiadau gan y Cyngorwyr canlynol:**
  - (i) Y Cyngorydd Gareth Davies - Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 23 - 30)
  - (ii) Y Cyngorydd Catrin M S Davies, Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 31 - 38)
  - (iii) Y Cyngorydd Gareth Ioan - Cyngor Cymuned Llanllwchaearn (Tudalennau 39 - 46)
  - (iv) Y Cyngorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Cais Calon Tysul) (Tudalennau 47 - 56)
  - (v) Y Cyngorydd Keith Evans, Cyngor Cymuned Llandysul (Cais Calon Tysul) (Tudalennau 57 - 66)
  - (vi) Y Cyngorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Cais Cymdeithas Chwaraeon Llandysul) (Tudalennau 67 - 76)
  - (vii) Y Cyngorydd Keith Evans, Cyngor Cymuned Llandysul (Cymdeithas Chwaraeon Llandysul) (Tudalennau 77 - 86)
  - (viii) Y Cyngorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Cais Llandysul Pontweli) (Tudalennau 87 - 96)
  - (ix) Y Cyngorydd Keith Evans, Cyngor Cymuned Llandysul (Cais

Llandysul Pontweli) (Tudalennau 97 - 106)

6. **Newid yn y canllawiau statudol ac anstatudol sydd wedi'u cydgrynhoi ar gyfer prif gynghorau yng Nghymru (Tudalennau 107 - 110)**
7. **Recriwtio aelod annibynnol (Chwefror 2024)**
8. **Pwyllgor Safonau a Moeseg Diweddaraf gan y Swyddog Monitro ar y Cod Ymddygiad - Chwarter 1& 2 2023-2024 (Tudalennau 111 - 114)**
9. **Adolygu templed asesiad cydymffurfio arweinwyr y grwpiau gwleidyddol (Tudalennau 115 - 124)**
10. **Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023 OS 2023/988 (Tudalennau 125 - 130)**
11. **Hyfforddiant gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn 2024**
12. **Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru (Tudalennau 131 - 132)**
13. **Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 22/23, Adroddiad Blynyddol OGCC 22/23 a Hysbysiadau o Benderfyniad OGCC (Tudalennau 133 - 136)**
14. **Canfyddiadau Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Tudalennau 137 - 142)**
15. **Cofnodion Fforwm Pwyllgorau Safonau Cymru (Tudalennau 143 - 152)**
16. **Cysoni trothwyon rhoddion/lletygarwch ar draws holl Awdurdodau Cymru (Tudalennau 153 - 156)**
17. **Cynlluniau hyfforddiant Cyngor Tref a Chymuned (Tudalennau 157 - 158)**
18. **Blaenraglen Waith (Tudalennau 159 - 162)**
19. **Ystyried unrhyw gais arall am ollyngiad a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r agenda**
  - (x) **Cynghorydd Matthew Vaux, Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 163 - 170)**
  - (xi) **Cynghorydd Gareth Lloyd, Cyngor Sir Ceredigion (cais hwyr, felly Saesneg yn unig) (Tudalennau 171 - 178)**
  - (xii) **Cynghorydd Elizabeth Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau**

179 - 190)

(xiii) Cynghorydd Elizabeth Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 191 - 202)

(xiv) Cynghorydd Chris James, Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 203 - 210)

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Safonau a Moeseg  
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU a gynhaliwyd yn Hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / o bell trwy gynhadledd fideo ddydd Llun, 05 Mehefin 2023**

YN BRESENNOL: Miss Caryl Davies (Cadeirydd) Mr Alan Davies, Ms Carol Edwards a Mrs Caroline White (Aelodau Annibynnol)

Y Cyngorwyr Caryl Roberts a Gwyn Wigley Evans (Aelodau Etholedig)

Y Cyngorwyr Delyth James a Jan Culley (Cynrychiolwyr Cyngorau Tref a Chymuned)

Aelodau Etholedig Eraill a oedd yn bresennol: Y Cyngorydd Rhodri Evans

YN BRESENNOL:

Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)

Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)

Mrs Dana Jones (Swyddog Democrataidd a Safonau)

(10:00am-11:55am)

**1 Ymddiheuriadau:**

Dim.

**2 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Datgelodd Miss Caryl Davies fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 16 ar yr agenda, a chadeiriwyd yr eitem gan y Cyngorydd Caroline White.

Datgelodd y Cyngorydd Gwyn Wigley Evans fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn 5 (a)

**3 Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 03 Ebrill 2023 fel rhai cywir**

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 03 Ebrill 2023 fel cofnod cywir yn amodol ar y canlynol:-

(i) diwygio "fy" i "ei" trigolion yng nghofnod 7(b);

(ii) diwygio rhif/llythyren paragraff y cofnod o 7(p) gan fod dau 7(p) wedi'u cynnwys yn y cofnodion;

(iii) diwygio cofnod 7(x) o "fy musnes" i "ei fusnes";

(iv) diwygio/ychwanegu llinell olaf y cofnodion gan ddileu "wastad";

(v) diwygio cofnod 7(a) o "ei" i "ei" gais;

(vi) mai'r dyddiad i gadarnhau'r cofnodion oedd 05 Mehefin 2023 ac nid 28 Mehefin 2023 gan fod dyddiad y cyfarfod wedi'i drefnu'n gynharach;

(vii) dylai eitem 10 ddweud 24 Gorffennaf ac nid 29 Gorffennaf

(vii) nodi mai Miss Caryl Davies oedd y Cadeirydd ac nid Mrs

**Materion sy'n Codi**

# Tudalen 6

Dim.

## 4 Cofnod y Camau Gweithredu

CYTUNWYD i nodi Cofnod y Camau Gweithredu fel y'i cyflwynwyd.

## 5 Ystyried ceisiadau am ollyngiadau gan y Cyngorwyr: canlynol

### (i) Y Cyngorydd John Roberts, Cyngor Sir Ceredigion-cais TB

Cafwyd cais yn dwyn dyddiad 08 Ebrill 2023 oddi wrth y Cyngorydd John Roberts, Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn am ollyngiad ynghylch y Rhybudd o Gynnig i'r Cyngor Llawn mewn perthynas â'r ffordd yr ymdrinnir â TB gan Lywodraeth Cymru. Roedd ei frodyr yn berchen ar dir yng Ngoginan. Roedd y tir wedi'i rannu'n ddau. Roedd un brawd wedi lesio'i holl dir i wahanol bobl nad oedd yn eu hadnabod. Mae'r brawd arall yn cadw cwpl o geffylau ar gyfer pori yn unig.

Nid oedd ganddo ddim diddordeb yn y tir heblaw gwirfoddoli i fwydo'r ceffylau tra roedd ei frawd yn gwella ar ôl llawdriniaeth ddifrifol. Credaf nad oedd ceffylau yn cael eu hystyried yn anifail amaethyddol.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cyngorydd Roberts i siarad a phleidleisio ar y cynnig ynghylch TB i'r Cyngor a fyddai'n cael ei ystyried yn eu cyfarfod ar 15 Mehefin 2023 ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; (Rheoliad 2 (d))

Rhoddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 15 Mehefin 2023 a chyfarfodydd dilynol y Cyngor os oedd angen, ond heb fod yn hwy na chwe mis.

### (ii) Y Cyngorydd Rhodri Evans, Cyngor Sir Ceredigion

Cafwyd cais yn dwyn dyddiad 01 Mai 2023 gan y Cyngorydd Rhodri Evans yn gofyn am ollyngiad i siarad yn unig ar Gais Cynllunio A201012 a oedd yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 14 Mehefin 2023.

Roedd y Cyngorydd Evans yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei gais. Dywedodd nad oedd yn credu bod ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu ond roedd am ddod â hyn gerbron y Pwyllgor Moeseg a Safonau er mwyn tryloywder. Yr ymgeisydd Mr. O Jones oedd ei was priodas yn ei briodas yn 2007. Yn ei dro bu'r Cyngorydd Evans yn ystlyswr ym mhriodas yr ymgeisydd dros 10 mlynedd yn ôl. Fel yr Aelod Lleol, dywedodd nad oedd ganddo bleidlais ar y cais hwn, ond teimlai y dylai fod ganddo'r hawl i siarad ynglŷn â'r cais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cyngorydd Evans i siarad yn unig (gan ei fod yn Aelod y Ward ac wedi ceisio siarad yn unig) ar Gais Cynllunio A202012 yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y sail bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (Rheoliad 2(d))

## Tudalen 7

Rhoddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 14 Mehefin 2023 a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu dilynol os oedd angen, ond nid yw'n fwy na chwe mis.

### **(iii) Y Cynghorydd Rhodri Evans, Cyngor Sir Ceredigion**

Cafwyd cais yn dwyn dyddiad 01 Mai 2023 gan y Cynghorydd Rhodri Evans yn gofyn am ollyngiad i siarad yn unig ar Gais Cynllunio A220751 a oedd yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Roedd y Cynghorydd Evans yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei gais. Dywedodd nad oedd yn credu bod ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu ond roedd am ddod â hyn gerbron y Pwyllgor Moeseg a Safonau er mwyn tryloywder. Yr ymgeiswyr oedd Mr a Mrs G ac E Jones. Mr G Jones brawd ei frawd yng nghyfraith. Fel yr Aelod Lleol, dywedodd nad oedd ganddo bleidlais ar y cais hwn, ond teimlai y dylai fod ganddo'r hawl i siarad ynglŷn â'r cais.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad yn unig (gan ei fod yn Aelod y Ward ac wedi ceisio siarad yn unig) ar Gais Cynllunio A220751 yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y sail bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod (Rheoliad 2(d))

Rhoddwyd y gollyngiad ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 14 Mehefin 2023 a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu dilynol os oedd angen, ond nid yw'n fwy na chwe mis.

## **6 Adroddiad Blynyddol Moeseg a Safonau 2022/23**

Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau 2022/23. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am baratoi'r Adroddiad Blynyddol yn amodol ar y diwygiadau a ganlyn:-

- (i) bod mesuriadau'r siart gylch yn Adran 5 yn cael eu rhannu yn ôl hyd yr amser a'r math o ollyngiad;
- (ii) rhoi "dim data ar gael" ar gyfer Cynghorau Tref/Cymuned ar dudalen 27 yr adroddiad; a
- (ii) rhoi terfyn amser o chwe mis i Gynghorwyr gwblhau Hyfforddiant y Cyfryngau Cymdeithasol yn adran Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol.

## **7 Asesiad Cydymffurfio Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol**

Rhoddwyd ystyriaeth i Asesiad Cydymffurfio Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol. Cwblhaodd arweinwyr y grwpiau eu hadroddiadau erbyn 30/4/23. Cynhaliwyd gweithdy gydag arweinydd pob grŵp yn unigol ar 15/5/23 gyda:

- Y Cynghorydd Bryan Davies (Plaid Cymru)
- Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Democratiaid Rhyddfrydol)
- Y Cynghorydd Gareth Lloyd (Grŵp annibynnol)

Aeth y Pwyllgor ati i asesu i ba raddau yr oedd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol wedi:

## Tudalen 8

1. cymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp
2. cydweithredu â'r Pwyllgor wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor
3. nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddiant

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod:

1. Arweinwyr y grwpiau wedi cymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp, ac wedi gwneud hynny mewn ffordd ystyrlon, er bod diffyg tystiolaeth a metrigau yn yr adroddiadau.

Er bod arweinwyr y grwpiau gwleidyddol yn credu eu bod nhw wedi gwneud digon i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp, nid oedd digon o dystiolaeth i gefnogi hyn. Roedd yr ymatebion yn oddrychol ac yn annelwig, ac nid oeddent yn canolbwyntio ar y Cod Ymddygiad.

2. Roedd arweinwyr y grwpiau wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i gydweithredu â'r Pwyllgor wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor.

3. Dylai holl arweinwyr y grwpiau sicrhau bod aelodau eu grwpiau'n cwblhau'r hyfforddiant ar-lein ynghylch y cyfryngau cymdeithasol o fewn 6 mis.

Argymhellion neu sylwadau ynghylch y lefel o gydymffurfiaeth â'r dyletswyddau newydd hyn:

Dylai pob arweinydd grŵp sicrhau bod aelodau eu grwpiau'n cwblhau'r hyfforddiant ar-lein ynghylch y cyfryngau cymdeithasol.

Dylid darparu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer 2023/2024 er mwyn sicrhau bod arweinwyr y grwpiau'n cwblhau'r templedi mewn modd digonol, gyda mwy o fetrigau a thystiolaeth.

Parhau i ymgysylltu â'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Swyddog Monitro mewn modd rhagweithiol.

Parhau i ymgysylltu ag arweinwyr y grwpiau eraill i ddysgu oddi wrthynt a chefnogi eich gilydd i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.

Parhau i ddefnyddio cyfarfodydd y grwpiau i ddarparu cyfleoedd i fentora'n anffurfiol.

Parhau i ddefnyddio cyfarfodydd y grwpiau i rannu achosion a gwersi a ddysgwyd, a dylid ystyried cynnwys achosion Panel Dyfarnu Cymru/Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel eitem sefydlog ar yr agenda.

Argymhell i'r aelodau na ddylent arwyddo deisebau.

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

### **8 Penodi Is-gadeirydd**

CYTUNWYD y byddai Mr John Weston yn parhau i fod yn Is-gadeirydd y Pwyllgor tan 22 Chwefror 2023.

### **9 Cynllunio ar gyfer olyniaeth - aelodau annibynnol**



## Tudalen 9

Rhodddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad ar Gynllunio ar gyfer Olyniaeth o ran Aelodau Annibynnol. Roedd yr argymhellion yn angenrheidiol i sicrhau bod y penodiadau priodol yn eu lle, yn unol â'r Cyfansoddiad

CYTUNWYD argymell i'r Cyngor gymeradwyo:

- 1) Cyfnod swydd Carol Edwards yn cael ei ymestyn 22/2/2024 i 21/2/2028.
- 2) y disgrifiad o'r rôl, manyleb y person a'r meini prawf
- 3) Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn:
  - Cadeirydd y Cyngor (Is-gadeirydd yn ei absenoldeb);
  - Aelod Annibynnol/Lleyg o'r Panel (wedi'i enwebu gan y Swyddog Monitro)
  - Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu aelodau annibynnol eraill a enwebir gan y Swyddog Monitro yn ôl yr angen)
  - Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned a enwebir gan Un Llais Cymru.
  - Aelod Annibynnol/Lleyg o'r Panel (Cadeirydd y panel dethol); (a enwebir gan y Swyddog Monitro);

### 10 Hunanwerthuso'r Pwyllgor Moeseg a Safonau

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 13 Hydref 2022 cytunwyd y byddai papur ar hunanwerthuso'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf.

Roedd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Swyddogion wedi cyfarfod ac wedi drafftio holiadur er mwyn hunanwerthuso'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn flynyddol. Cafodd yr holiadur arfaethedig ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar 25<sup>ain</sup> Ionawr 2023 a chynigiwyd bod hunanwerthusiad yn cael ei gwblhau yn flynyddol gan aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar ddiwedd blwyddyn y cyngor.

Cytunwyd i roi mwy o ystyriaeth i'r hunanwerthuso o ran cael gwared ar yr opsiwn canolig yn yr holiadur hunanwerthuso ac ychwanegu cwestiwn ar effeithiolrwydd y Pwyllgor o ran llwyth gwaith agenda'r pwyllgor. Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor anfon eu hadborth ar yr hunanwerthuso er mwyn cwblhau'r hunanwerthuso. Byddai cynnwys yr ymatebion yn cael eu hychwanegu at y Blaengynllun Gwaith a'u hystyried mewn gweithdy i gytuno ar flaenoriaethau'r dyfodol.

Ar ôl ystyried yr ymatebion, CYTUNWYD i gynnal gweithdy i ystyried yr ymatebion ac i flaenoriaethu gwaith y pwyllgor yn y dyfodol.

## Tudalen 10

- 11 Diweddariad ar God Ymddygiad y Swyddog Monitro- Chwarter 4**  
Rhoddwyd ystyriaeth i Ddiweddariad Cod Ymddygiad y Swyddog Monitro – Chwarter 4. CYTUNWYD i nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.  
Nodwyd y byddai Arweinwyr y Grwpiau mewn sefyllfa dda i amlygu materion tueddiadau a'r angen i hunan-adrodd yn dilyn euogfarn i'w haelodau
- 12 Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad: WG47012 (Argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (adroddiad Richard Penn)**  
CYTUNWYD i nodi y byddai'r ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno fel y'i cyflwynwyd.
- 13 Datganiad o Weledigaeth**  
CYTUNWYD bod y Datganiad o Weledigaeth yn parhau i fod yn addas i'r diben.
- 14 Hyfforddiant- Cynghorau Tref a Chymuned yn 2024**  
CYTUNWYD y byddai hyfforddiant pellach yn cael ei roi yn 2024, ac y byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i gyflwyno sesiynau hyfforddi gydag achosion/adroddiadau gwirioneddol o gamymddwyn. Nodwyd bod adroddiadau'r Ombwdsmon a Phanel Dyfarnu Cymru yn cael eu dosbarthu i Glercod yr holl Gynghorau Tref a Chymuned yn dilyn pob cyfarfod o'r pwyllgor. Nodwyd y gellid gofyn am adborth gan Glercod Cynghorau Tref a Chymuned ar anghenion hyfforddi eu Cyngor gan fod ganddynt fwy o wybodaeth am anghenion hyfforddi eu Haelodau. Nodwyd hefyd, er efallai nad oedd rhoi hyfforddiant yn broblem, roedd ymgysylltiad aelodau â hyfforddiant yn broblem barhaus. Nid oedd pob cynllun hyfforddi wedi'i ddychwelyd.
- 15 Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru**  
CYTUNWYD i nodi'r adroddiad a dddosbarthwyd trwy e-bost. Byddai'r adroddiad hwn yn cael ei dddosbarthu i holl Glercod Cynghorau Tref a Chymuned ac Arweinwyr y Grwpiau.
- 16 Diweddariad ar faterion Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus**  
CYTUNWYD i nodi'r adroddiad. Byddai'r adroddiad hwn yn cael ei dddosbarthu i holl Glercod Cynghorau Tref a Chymuned ac Arweinwyr y Grwpiau.
- 17 Blaenraglen Waith**  
CYTUNWYD i nodi cynnwys y Flaenraglen Gwaith fel y'i cyflwynwyd.
- 18 Unrhyw Fater Arall**  
Dywedodd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod olaf Mrs Caroline White a diolchodd iddi am ei holl waith a'i hymrwymiad dros y 10 mlynedd diwethaf. Dymunodd pawb yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a  
gynhaliwyd ar xxxxx  
Cadeirydd: \_\_\_\_\_**

# Tudalen 11

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion 2022-2023\*

Diben y Cofnod hwn yw monitro'r camau gweithredu y mae aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi cytuno arnynt yn eu cyfarfodydd e.e. lle bo aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi gofyn am gyflwyno adroddiad ger eu bron yn y dyfodol, neu wedi gofyn am wybodaeth ar gyfer un o gyfarfodydd y dyfodol.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am y Cofnod o Gamau Gweithredu, cysylltwch â'r Swyddog Safonau.

Diweddarwyd: 18 Hydref 2023

\*Blwyddyn Fwrdeistrefol

Caiff y camau gweithredu sydd wedi'u nodi mewn gwyrdd ac sydd wedi'u cwblhau ('Do') eu tynnu oddi ar y Cofnod Gweithredu dilynol.

### Acronymau:

AW – Archwilio Cymru

CE: Prif Weithredwr

CLO – Swyddog Arweiniol  
Corfforaethol

FWP – Blaenraglen Waith

SO – Swyddog Safonau

MO – Swyddog Monitro

CM – Rheolwr Corfforaethol

ESC – Pwyllgor Moeseg a Safonau

OVW – Un Llais Cymru

L&G – Llywodraethol a Chyfreithiol

N/A – Amherthnasol

TBC – I'w Gadarnhau

Rhif	Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau	Eitem	Nodwyd / Sylwadau	Camau Gweithredu	Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu	Diweddariad ar y Datblygiadau	I'w adrodd nesaf	Wedi'i gwblhau? Do/Naddo
1,	25/1/23	Trafod gydag arweinwyr y pleidiau ddulliau o hybu a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion gan gynnwys y dyletswyddau sy'n ofynnol o dan Adrannau 62-63 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021		Gwneud trefniadau i ddarparu hyfforddiant gloywi ar y Cod yn fuan	MO / LE	Trefnwyd ar gyfer 18 Mai 2023		Do

Rhif	Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau	Eitem	Nodwyd / Sylwadau	Camau Gweithredu	Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu	Diweddariad ar y Datblygiadau	I'w adrodd nesaf	Wedi'i gwblhau? Do/Naddo
2.	25/1/23	<b>Cysoni'r trothwyon ar gyfer rhoddion / lletygarwch ar draws pob Awdurdod yng Nghymru</b>	CYTUNWYD: Bod amrywiaeth leol yn dderbyniol, er y cytunir mewn egwyddor â'r syniad o gysondeb.	Dylai'r trothwy ar gyfer rhoddion i Aelodau'r Cyngor a Swyddogion fod yn cyd-fynd â'i gilydd. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y cynnig hwn ymhellach a bydd yn cael ei roi yn y Flaenraglen Waith i'w ystyried. Felly hefyd, o bosib, gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn ôl yr angen. Dim ond y Cyngor all wneud	MO / NJ	Danfonwyd ebost at MO /NJ 17/2/23  Cyfarfod 3/4/23: Cytunwyd y byddai'n cael ei adolygu eto mewn chwe mis gan ei fod bellach hefyd yn rhan o'r ymgynghoriad yn adroddiad Penn. Byddai hwn yn cael ei osod ar y Flaenraglen Waith.	15/11/23 10/1/24	

Rhif	Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau	Eitem	Nodwyd / Sylwadau	Camau Gweithredu	Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu	Diweddariad ar y Datblygiadau	I'w adrodd nesaf	Wedi'i gwblhau? Do/Naddo
				newidiadau i'r Côd.				
3.	25/1/23	<b>Hunanwerth uso'r Pwyllgor Moeseg a Safonau</b>	CYTUNWYD i roi rhagor o ystyriaeth i'r hunanwerthus o o ran cael gwared ar yr opsiwn canolig yn yr holiadur hunanwerthus o ac ychwanegu cwestiwn ar effeithiolrwydd y Pwyllgor o ran llwyth gwaith agenda'r pwyllgor.	Danfonwyd fersiwn diwygiedig at yr Aelodau 16/2/23 ar gyfer sylw pellach	LE	Derbyniwyd ymatebion. Bydd yr hunanwerthus i-ad yn cael ei anfon at Aelodau ym mis Mai 2023.  Anfonwyd yr holiadur at Aelodau.  Trefnwyd gweithdy i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod ar 5/6/23. Gohiriwyd y gweithdy ar 6/9/23 gan nad oess nifer o aelodau yn	5/6/23  Gweithdy i'w ail- drefnu	



Rhif	Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau	Eitem	Nodwyd / Sylwadau	Camau Gweithredu	Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu	Diweddariad ar y Datblygiadau	I'w adrodd nesaf	Wedi'i gwblhau? Do/Naddo
						methu mynychu.		
4.		<b>Adolygu'r Datganiad o Weledigaeth</b>		Rhoddodd yr Aelodau eu barn dros e- bost	LE	Adroddwyd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 3/4/23  CYTUNWYD yn y cyfarfod ar 5/6/23 byddai Datganiad o Weledigaeth yn parhau if od yn addas i'w bwrpas.	3/4/23  5/6/23	Do
5.	3/4/23	<b>Templed ar gyfer Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol</b>		Addaswyd paragraff 12.  Anfonwyd y templed at arweinwyr y grwpiau i'w lenwi.	EP / LE		Adroddwyd 5/6/23	Do

Rhif	Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau	Eitem	Nodwyd / Sylwadau	Camau Gweithredu	Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu	Diweddariad ar y Datblygiadau	I'w adrodd nesaf	Wedi'i gwblhau? Do/Naddo
				Trefnwyd gweithdy ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ac arweinwyr y grwpiau ar 15/5/23				
6.	3/4/23	<b>Penodi Is-gadeirydd</b>		Gohiriwyd tan y cyfarfod nesaf		Cadarnhaodd JW y byddai'n fodlon aros yn Is-gadeirydd hyd nes i'w gyfnod yn y swydd ddod i ben	5/6/23  Adroddwyd i'r Pwyllgor 10/1/23	
7.	3/4/23  5/6/23	<b>Adolygu'r Datganiad o Weledigaeth</b>		CYTUNWYD i ohirio'r penderfyniad ynghylch geiriad y datganiad fel y gellid ystyried y cynnig i ychwanegu'r	MO / Cadeirydd	Wedi'i osod yn y Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfarfod nesaf  CYTUNWYD yn y cyfarfod	5/6/23	Y

Rhif	Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau	Eitem	Nodwyd / Sylwadau	Camau Gweithredu	Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu	Diweddariad ar y Datblygiadau	I'w adrodd nesaf	Wedi'i gwblhau? Do/Naddo
				geiriau 'busnesau a sefydliadau' ar ôl 'bobl'.		ar 5/6/23 bod y Datganiad o Weledigaeth yn parhau if od yn addas at ei bwrpas.		
8.	3/4/23	Gweddarlledu gwrandawriad au'r Pwyllgor Moeseg a Safonau mewn awdurdodau eraill		Rhannu recordiadau o weddarllediada u gan awdurdodau eraill, at ddibenion hyfforddi	LME	Wedi rhannu dolenni presennol gyda'r MO ac wedi'u danfon at Aelodau'r Pwyllgor.		
9.	3/4/23 5/6/23	Hyfforddiant gloywi ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned		I'w gynnig i Gynghorau Tref a Chymuned yn 2024	DJ / MO			
10	3/4/23 5/6/23	Ymgynghori ad ynghylch adroddiad Penn		Bydd ymateb drafft i'r 20 cwestiwn a baratowyd gan	MO	Dosbarthwyd i Aelodau'r Pwyllgor Moeseg a	5/6/23:CYT UNWYD i nodi y byddai	Y

Rhif	Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau	Eitem	Nodwyd / Sylwadau	Camau Gweithredu	Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu	Diweddariad ar y Datblygiadau	I'w adrodd nesaf	Wedi'i gwblhau? Do/Naddo
				y MO yn cael ei gylchredeg ymhlith yr Aelodau		Safonau drwy e-bost a'u llwytho ar Teams er mwyn cael mewnbwn gan yr Aelodau.  Gofynnwyd am ymatebion erbyn 30 Ebrill  Ymateb i'r ymgynghoriad wedi'i gyflwyno	ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno fel ag y mae.	
11	5/6/23	<b>Cynllunio Olyniaeth i'r Aelodau Annibynnol</b>		Adroddwyd i'r Cyngor Sefydlu rhestr fer / panel cyfweld	LME	Cymerwyd adroddiad i'r Cyngor  Cynhaliwyd panel rhestr fer ar 9/10/23	Diweddariad 15/11/23`	

Rhif	Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau	Eitem	Nodwyd / Sylwadau	Camau Gweithredu	Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu	Diweddariad ar y Datblygiadau	I'w adrodd nesaf	Wedi'i gwblhau? Do/Naddo
						Cynhelir cyfweiliadau ar 16/11/23		
12	5/6/23	<b>Hunanwerth uso craffu</b>		CYTUNWYD y byddai gweithdy'n cael ei gynnal i ystyried yr ymatebion ac i flaenoriaethu gwaith y pwyllgor yn y dyfodol.	LME	Trefnwyd ar gyfer 6/9/23  Gohiriwyd gan nad oedd nifer yn medru mynychu. I'w drafod ar ddiwedd y cyfarfod ar 16/11/23	Gweithdy yn dilyn y cyfarfod ar 16/11/23	
13	5/6/23	<b>Diweddariad am faterion Panel Dyfarnu Cymru</b>		Byddai'r adroddiad hwn yn cael ei ddosbarthu i holl Glercod Cynghorau Tref a Chymuned ac Arweinwyr Grwpiau.	LE / DJ	Danfonwyd		Do

Rhif	Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau	Eitem	Nodwyd / Sylwadau	Camau Gweithredu	Swyddog(ion) â chyfrifoldeb dros y Cam Gweithredu	Diweddariad ar y Datblygiadau	I'w adrodd nesaf	Wedi'i gwblhau? Do/Naddo
14	5/6/23	<b>Diweddariad am faterion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus</b>		Byddai'r adroddiad hwn yn cael ei ddosbarthu i holl Glercod Cynghorau Tref a Chymuned ac Arweinwyr Grwpiau.	LE /DJ	Danfonwyd		Do



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

## CAIS I'R PWYLLGOR MOESeg A SAFONAU AM OLLYNGIAD

### Gwybodaeth

Darllenwch gynnwys y siart llif a fydd yn eich helpu i benderfynu a oes angen gollyngiad arnoch.

Dylai Cyngorwyr fod yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad a'i gynnwys. Os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag unrhyw beth, mae croeso ichi gysylltu â'r Swyddog Monitro.

Dylech sicrhau mai **DIM OND UN** mater sydd dan sylw ar bob ffurflen. Os oes mwy nag un mater (achosion gwahanol) dylech ddefnyddio ffurflenni ar wahân ar eu cyfer.

Os oes arnoch angen gollyngiad ar gyfer Cyngor Tref/Cymuned **A'R** Cyngor Sir mae rhaid defnyddio **gwahanol** ffurfleni am bob cais.

### **Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau i:**

[moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru](mailto:moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru) / [ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk](mailto:ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk)

Moeseg a Safonau  
Neuadd Cyngor Ceredigion,  
Penmorfa,  
Aberaeron,  
Ceredigion,  
SA46 0PA  
**Ffôn: 01545 570881**

### **Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â:**

**Swyddog Monitro** - Elin Prysor  
Neuadd Cyngor Ceredigion,  
Penmorfa,  
Aberaeron,  
Ceredigion,  
SA46 0PA

[SwyddogMonitro@ceredigion.gov.uk](mailto:SwyddogMonitro@ceredigion.gov.uk) / [MonitoringOfficer@ceredigion.gov.uk](mailto:MonitoringOfficer@ceredigion.gov.uk)

# Tudalen 24

Ffurflen diwygiedig 23/03/20



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

## CAIS I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AM OLLYNGIAD

Mae'n RHAID cwblhau pob rhan o'r ffurflen. Darllenwch y Canllawiau wrth lanw'r ffurflen.

### 1. EICH MANYLION

Eich enw llawn: Cyng Gareth Davies

Cyngor:

Sir:

Tref/Cymuned:

Enw eich Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Eich cyfeiriad: 6 Dôl yr Odyn, Paryronnen, llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion

Cod post: SY23 3SS

Rhif(au) ffôn: 01970 624929 (Cartref) 07855 906326 (Symudol)

Cyfeiriad e-bost: Gareth.Davies@ceredigion.llyw.cymru

### 2. MANYLION EICH BUDDIANT

Beth yw'r mater y bydd y Cyngor yn ei drafod?

Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail-Gartrefi yng Ngheredigion

Disgrifiwch eich buddiant sy'n rhagfarnu yn y mater uchod, gan gynnwys eich cysylltiad chi ag ef:  
(1)

Rwyf yn cyd-berchenog am gwraig, eiddo sydd yn cael ei osod



# Tudalen 25

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

Ble caiff y mater uchod ei drafod? (er enghraifft, Cabinet, Cyngor Sir, Cyngor Tref/Cymuned) <sup>(2)</sup>

**Sir - Cyngor**

**Sir – Cabinet**

**Sir - Pwyllgor**

**Tref / Cymuned**

**Arall**

**(rhowch fanylion)**

---

I ba baragraff o'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr (argraffiad 20 Mai 2016) y mae'r buddiant hwn yn berthnasol?

**Paragraff 10 (2) (a)** os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —

- (i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;
- (ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;
- (iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;
- (iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;
- (v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;
- (vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;
- (vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;
- (viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;
- (ix) unrhyw —
- (aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;
- (bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;
- (cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;
- (chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu
- (dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod, yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

# Tudalen 26

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

**Paragraff 10 (2) (b)** pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgwymerir â hi neu fushes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

a hynny i raddau mwy—

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

**Paragraff 13** Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fushes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) —

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

# Tudalen 27

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

## 3. GWYBODAETH I ATEGU'CH CAIS

Nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol (cefndir/ffeithiol) i gadarnhau/esbonio eich buddiant ymhellach. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo drafod eich cais am ollyngiad.  
**(Os na chwblheir y rhan hon, fe gaiff y ffurflen gais ei dychwelyd atoch)**

Dwi'n berchenar eiddo sydd wedi bod yn fy mediant ers tua 15 mlynedd ac mae wedi gael ei renti allan drwy'r holl gyfnod hynny. Mi fydd y Cyngor yn ystyried Premiwm Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo gwag Hirdymor yn ystod y broses o osod Cyllideb Refeniw y Cyngor maes o law mewn nifer o bwyllgorau. Nid yw'r canllawiau yn glir a yw fy eiddo I yn syrthio mewn i'r ddau gategori yma.

(defnyddiwch dudalen ychwanegol ar wahân os oes angen)

## 4. SAIL AR GYFER RHOI GOLLYNGIAD

Mae Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau)(Cymru) 2001 yn pennu o dan ba amgylchiadau y gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau roi gollyngiad. Nodir isod y sail ar gyfer rhoi gollyngiad.

Ar ba sail o blith y canlynol y credwch y dylid rhoi gollyngiad yn yr achos hwn? Ticiwch bob bocs sy'n briodol.

(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;	<input type="checkbox"/>
(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (d) neu baragraff (e) hefyd yn gymwys;	<input type="checkbox"/>
(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;	<input type="checkbox"/>
(d) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;	<input checked="" type="checkbox"/>
(e) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;	<input checked="" type="checkbox"/>
(f) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;	<input checked="" type="checkbox"/>
(g) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolwg a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol	<input type="checkbox"/>
(h) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu	<input type="checkbox"/>
(i) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.	<input type="checkbox"/>
(j) mae'n ymddangos i'r pwyllgor fel arall ei bod yn briodol rhoi gollyngiad	<input checked="" type="checkbox"/>

## 5. SAIL AR GYFER RHOI GOLLYNGIAD - MWY O WYBODAETH

Nodwch isod y rhesymau pam rydych chi'n credu y dylai'r Pwyllgor Moeseg a Safonau roi gollyngiad yn yr achos hwn (hynny yw, esboniwch pam rydych chi'n credu y bodlonwyd un neu fwy o'r meini prawf ar gyfer rhoi gollyngiad)

**(Os na chwblheir y rhan hon, fe gaiff y ffurflen gais ei dychwelyd atoch)**

Fi yw'r Aelod Cabinet sydd a chyfrifoldeb am Gwasanaethau Cyllid a Chaffael. Yr Adran Gyllid a Chaffael fydd yn arwain ar y trafodaethau yma.

Fel y soniais yn gynharach, dydi hi ddim yn glir a yw fy eiddo yn syrthio i gategori Ail Gartref neu Eiddo Gwag. Ar hyd yr amser mae'r eiddo wedi bod yn fy mherchnogaeth, nid oes un cyfnod wedi bod pan mae wedi bod yn wag. Felly ni all yn eiddo gael ei ystyried fel Ail-Gartref, (gan and oes gennyf unrhyw fwriad o fyw ynddo), Na hefyd fel Eiddo Gwag Hirdymor gan fod tenantiaid ynddo trwy gydol yr amser.

Dwi'n credu yn gryf y dylai'r Aelod Cabinet fod ar hawl i siarad yn rhydd ynghylch ar pwnc yma, sydd yn galli bod yn bwnc emosiynol yn ogystal â phwnc sydd a elfennau technegol yn perthyn iddo.

Gofynaf yn garedig i'r pwyllgor ystyried fy nghais yn garedig a chaniatau i fi siarad a phleidleisio ar y mater yma.

(defnyddiwch dudalen ychwanegol ar wahân os oes angen)

## 6. CAIS

A ydych chi'n gwneud cais am ollyngiad i siarad yn unig, ynteu i siarad a phleidleisio?

Siarad yn Unig:

Siarad a Phleidleisio:

Rhowch reswm dros hyn:

## 7. HYD Y GOLLYNGIAD

Am ba hyd y gofynnir am y gollyngiad hwn?

**Penodol:**

Cyfarfod(ydd) Penodol:

Nodwch ddyddiad(au)'r cyfarfod(ydd): \_\_\_\_\_

**Cyffredinol:**

# Tudalen 29

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

Chwe mis:

Deuddeg mis: x

## 8. DATGANIAD

Yr wyf yn gofyn am ollyngiad ynglŷn â'r mater uchod.

**Yr wyf yn cadarnhau fod y wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n cytuno y gall y cais yma a'r wybodaeth sy'n gynwysedig ffurfio rhan o adroddiad cyhoeddus i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.**

Llofnod:

Dyddiad:

### Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i:

Moeseg a Safonau  
Neuadd Cyngor Ceredigion  
Penmorfa  
Aberaeron  
Ceredigion  
SA46 0PA

Ffôn: 01545 570881

[moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru](mailto:moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru) / [ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk](mailto:ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk)

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

## CAIS I'R PWYLLGOR MOESeg A SAFONAU AM OLLYNGIAD

### Gwybodaeth

Darllenwch gynnwys y siart llif a fydd yn eich helpu i benderfynu a oes angen gollyngiad arnoch.

Dylai Cyngorwyr fod yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad a'i gynnwys. Os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag unrhyw beth, mae croeso ichi gysylltu â'r Swyddog Monitro.

Dylech sicrhau mai **DIM OND UN** mater sydd dan sylw ar bob ffurflen. Os oes mwy nag un mater (achosion gwahanol) dylech ddefnyddio ffurflenni ar wahân ar eu cyfer.

Os oes arnoch angen gollyngiad ar gyfer Cyngor Tref/Cymuned **A'R** Cyngor Sir mae rhaid defnyddio **gwahanol** ffurfleni am bob cais.

### **Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau i:**

[moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru](mailto:moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru) / [ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk](mailto:ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk)

Moeseg a Safonau  
Neuadd Cyngor Ceredigion,  
Penmorfa,  
Aberaeron,  
Ceredigion,  
SA46 0PA  
**Ffôn: 01545 570881**

### **Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â:**

**Swyddog Monitro** - Elin Prysor  
Neuadd Cyngor Ceredigion,  
Penmorfa,  
Aberaeron,  
Ceredigion,  
SA46 0PA

[SwyddogMonitro@ceredigion.gov.uk](mailto:SwyddogMonitro@ceredigion.gov.uk) / [MonitoringOfficer@ceredigion.gov.uk](mailto:MonitoringOfficer@ceredigion.gov.uk)

# Tudalen 32

Ffurflen diwygiedig 23/03/20



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

## CAIS I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU AM OLLYNGIAD

Mae'n RHAID cwblhau pob rhan o'r ffurflen. Darllenwch y Canllawiau wrth lanw'r ffurflen.

### 1. EICH MANYLION

Eich enw llawn: CATRIN M S DAVIES

Cyngor:

Sir:

Tref/Cymuned:

Enw eich Cyngor: CEREDIGION

Eich cyfeiriad: SIMNE WEN, 3 STRYD NEWYDD, TALYBONT, CEREDIGION.

Cod post: SY24 5HD

Rhif(au) ffôn: 07866 452287

Cyfeiriad e-bost: Catrin.M.S.Davies@ceredigion.llyw.cymru

### 2. MANYLION EICH BUDDIANT

Beth yw'r mater y bydd y Cyngor yn ei drafod?  
Bydd y Cyngor yn trafod codi'r dreth ar dai gweigion.

Disgrifiwch eich buddiant sy'n rhagfarnu yn y mater uchod, gan gynnwys eich cysylltiad chi ag ef:  
(<sup>1</sup>) Rydw i yn berchen ar dŷ gwag. Gall codi treth ar dŷ gwag effeithio arna i.



# Tudalen 33

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

Ble caiff y mater uchod ei drafod? (er enghraifft, Cabinet, Cyngor Sir, Cyngor Tref/Cymuned) <sup>(2)</sup>

**Sir - Cyngor**

**Sir – Cabinet**

**Sir - Pwyllgor**

**Tref / Cymuned**

**Arall**

**(rhowch fanylion)**

---

I ba baragraff o'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr (argraffiad 20 Mai 2016) y mae'r buddiant hwn yn berthnasol?

**Paragraff 10 (2) (a)** os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt —

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrn yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu weithfeydd a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrn yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrn yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw —

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod, yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

# Tudalen 34

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

**Paragraff 10 (2) (b)** pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio —

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgwymerir â hi neu fushes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i), unrhyw ffyrn y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(b)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

a hynny i raddau mwy—

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

**Paragraff 13** Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fushes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) —

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

**3. GWYBODAETH I ATEGU'CH CAIS**

Nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol (cefndir/ffeithiol) i gadarnhau/esbonio eich buddiant ymhellach. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo drafod eich cais am ollyngiad.

**(Os na chwblheir y rhan hon, fe gaiff y ffurflen gais ei dychwelyd atoch)**

Mae'r tŷ yn wag ers blynyddoedd tua 1998. Rydw i wedi ei etifeddu pan oedd eisoes mewn cyflwr drwg. Does cyflenwad dŵr iddo na system garthion.

Mae angen cymaint o waith arno allai ddim â fforddio gwneud y gwaith angenrheidiol er mwyn ei wneud yn dŷ annedd derbyniol.

(defnyddiwch dudalen ychwanegol ar wahân os oes angen)

**4. SAIL AR GYFER RHOI GOLLYNGIAD**

Mae Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Gollyngiadau)(Cymru) 2001 yn pennu o dan ba amgylchiadau y gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau roi gollyngiad. Nodir isod y sail ar gyfer rhoi gollyngiad.

Ar ba sail o blith y canlynol y credwch y dylid rhoi gollyngiad yn yr achos hwn? Ticiwch bob bocs sy'n briodol.

(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;	<input type="checkbox"/>
(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (d) neu baragraff (e) hefyd yn gymwys;	<input type="checkbox"/>
(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;	<input type="checkbox"/>
(d) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;	<input checked="" type="checkbox"/>
(e) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;	<input type="checkbox"/>
(f) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;	<input type="checkbox"/>
(g) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolwg a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol	<input checked="" type="checkbox"/>
(h) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu	<input type="checkbox"/>
(i) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.	<input type="checkbox"/>
(j) mae'n ymddangos i'r pwyllgor fel arall ei bod yn briodol rhoi gollyngiad	<input checked="" type="checkbox"/>

## 5. SAIL AR GYFER RHOI GOLLYNGIAD - MWY O WYBODAETH

Nodwch isod y rhesymau pam rydych chi'n credu y dylai'r Pwyllgor Moeseg a Safonau roi gollyngiad yn yr achos hwn (hynny yw, esboniwch pam rydych chi'n credu y bodlonwyd un neu fwy o'r meini prawf ar gyfer rhoi gollyngiad)

**(Os na chwblheir y rhan hon, fe gaiff y ffurflen gais ei dychwelyd atoch)**

Does dim byd llawer y gallai i ei wneud ynglyn â'r tŷ rydw i yn ei berchen gan ei fod ynghanol tir y mae fy chwaer yn ei ffermio - allai ddim a fforddio ei adnewyddu a gallai ddim â'i werthu felly dydi e ddim yn ffactor i fi wrth drafod materion perthnasol. Dydy perchen ar y tŷ hwn ddim yn effeithio ar fy ngallu i i drafod ac ystyried codi treth uwch ar dai gweigion. Fyddai i ddim yn ystyried y mater hwn yng ngoleuni mod i'n berchen ar ail dŷ ond yn hytrach yn nhermau sut i weithredu yn deg i bob carfan o gymdeithas a'r bobl yr ydym ni yn eu cynrychioli.

(defnyddiwch dudalen ychwanegol ar wahân os oes angen)

## 6. CAIS

A ydych chi'n gwneud cais am ollyngiad i siarad yn unig, ynteu i siarad a phleidleisio?

Siarad yn Unig:

Siarad a Phleidleisio:

# Tudalen 37

Ffurflen diwygiedig 23/03/20

Rhowch reswm dros hyn:  
Er mwyn gallu dylanwadu ar y penderfyniad.

## 7. HYD Y GOLLYNGIAD

Am ba hyd y gofynnir am y gollyngiad hwn?

**Penodol:**

Cyfarfod(ydd) Penodol:

Nodwch ddyddiad(au)'r cyfarfod(ydd):

**Cyffredinol:**

Chwe mis:

Deuddeg mis:

## 8. DATGANIAD

Yr wyf yn gofyn am ollyngiad ynglŷn â'r mater uchod.

The ability to speak and vote on occasions where I have an interest in a community organisation will expedite and aid the decision making processes due to the local knowledge, expertise and experience that I possess.

## 7. DURATION

What is the requested duration for this dispensation?

### Specific:

Specific Meeting(s):

Please specify meeting date(s): \_\_\_\_\_

### General:

6 months:

12 months:

## 8. DECLARATION

I request a dispensation in respect of the above matter.

**I confirm that the information provided on this form is true to the best of my knowledge.**

Signed:

*Keir Ewans*

Date:

08/09/23

### Please return this form to:

Ethics and Standards  
Neuadd Cyngor Ceredigion  
Penmorfa  
Aberaeron  
Ceredigion  
SA46 0PA  
Tel: 01545 570881

[ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk](mailto:ethicsandstandards@ceredigion.gov.uk) / [moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru](mailto:moesegasafonau@ceredigion.llyw.cymru)



## CYNGOR SIR CEREDIGION

<b><u>Adroddiad i'r:</u></b>	<b>Pwyllgor Moeseg a Safonau</b>
<b><u>Dyddiad y cyfarfod:</u></b>	<b>15 Tachwedd 2023</b>
<b><u>Teitl:</u></b>	<b>Newid yn y canllawiau statudol ac anstatudol sydd wedi'u cydgrynhoi ar gyfer prif gynghorau yng Nghymru</b>
<b><u>Pwrpas yr adroddiad:</u></b>	<b>Diweddarau'r Pwyllgor am y newid yn y canllawiau statudol ac anstatudol sydd wedi'u cydgrynhoi ar gyfer prif gynghorau yng Nghymru</b>

### **Cefndir**

Bu newid yn y canllawiau statudol ac anstatudol sydd wedi'u cydgrynhoi ar gyfer prif gynghorau yng Nghymru. Gallwch weld y newid yn Rhan 2, Adran 6.0, paragraff 6.4 o'r canllawiau.

Mae'r canllawiau wedi'u newid i nodi y dylai'r pwyllgorau safonau (yn hytrach na chadeiryddion y pwyllgorau safonau) gwrdd ag arweinwyr grwpiau ar ddechrau pob blwyddyn gyngor i gytuno ar nifer o faterion.

Gallwch weld y canllawiau diwygiedig drwy fynd at:

[Canllawiau statudol ac anstatudol ar ddemocratiaeth o fewn prif gynghorau | LLYW.CYMRU](#)

[Statutory and non-statutory guidance on democracy within principal councils | GOV.WALES](#)

Mae cyfres o fideos am safonau moesegol a'r cod ymddygiad wedi'u datblygu. Mae'r fersiynau terfynol bellach ar gael a gallwch eu gweld drwy ddilyn y dolenni canlynol:

[Safonau ymddygiad ar gyfer cynghorwyr yng Nghymru - YouTube](#)  
[Cyngor ar sut i gwyno am gynghorydd yng Nghymru - YouTube](#)  
[Sut dylai cynghorwyr ymddwyn ac ymwneud â phobl - YouTube](#)

[Standards of behaviour for councillors in Wales - YouTube](#)  
[Advice on how to complain about a councillor in Wales - YouTube](#)  
[How councillors should behave and interact with people - YouTube](#)

Y rhan berthnasol ar gyfer y Pwyllgor Moeseg a Safonau yw Rhan 2 4.0-7.0:

4.0 Canllawiau Statudol ar ddyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad .....	22
5.0 Canllawiau Statudol ar Swyddogaethau Pwyllgorau Safonau .....	30
6.0 Dyletswydd pwyllgor safonau i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau â'r dyletswyddau, a darparu cyngor a hyfforddiant .....	32
7.0 Dyletswydd y pwyllgor safonau i wneud adroddiad blynyddol .....	33

Tynnwn eich sylw at baragraffau 4.36 a 4.24 o'r Canllawiau Statudol ac Anstatudol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023 ynghylch Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol yn bodloni eu dyletswydd statudol yn Neddf 2021 a'u hymwneud â'r Pwyllgor Safonau (yn anad dim y trothwy i'w ddefnyddio gan y Pwyllgor Safonau unigol).

4.36 Ar ddechrau pob blwyddyn gyngor, dylai arweinwyr grwpiau gwleidyddol gwrdd â'r pwyllgor safonau i gytuno ar yr hyn a ganlyn:

- Sut y bydd arweinwyr grwpiau a'r pwyllgor safonau yn cydweithio i sicrhau safonau ymddygiad priodol;
- Amllder y cyfarfodydd rhwng arweinwyr grwpiau a'r pwyllgor safonau drwy gydol y flwyddyn;
- Y trothwy y bydd y pwyllgor safonau yn ei ddefnyddio i ganfod a yw'n fodlon bod arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â dyletswyddau Deddf 2021;
- Y mecanwaith i arweinwyr grwpiau gwleidyddol ddarparu adroddiadau i'r pwyllgor safonau am y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r dyletswyddau yn Neddf 2021.

4.24 Mae'r camau rhesymol y gall Arweinydd y Grŵp eu cymryd yn cynnwys:

- dangos ymrwymiad personol i gyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol ynghylch cydraddoldeb a safonau, gan gynnwys y Cod Ymddygiad, a mynychu a chyfranogi mewn cyfleoedd o'r fath;
- mynd ati'n weithredol i annog aelodau'r grŵp i fynychu cyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol ynghylch cydraddoldeb a safonau, gan gynnwys mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad;
- sicrhau bod enwebeion i bwyllgor wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer cyfranogi yn y pwyllgor hwnnw;
- gosod esiampl o ran moesgarwch a pharch o fewn cyfathrebiadau a phwyllgorau'r grŵp ac mewn pwyllgorau cyngor ffurfiol;
- cefnogi gweithdrefnau datrys anffurfiol yn y cyngor; a gweithio gyda'r pwyllgor safonau a'r swyddogion monitro i ddod i ddatrysiaid yn lleol;

## Tudalen 109

- annog diwylliant o fewn y grŵp sy'n cefnogi safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb;
- mynychu cyfarfod o Bwyllgor Safonau'r Cyngor os gofynnir iddo wneud hynny er mwyn cyfranogi mewn trafodaethau sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad
- bwrw ymlaen â gwaith i weithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynghylch gwella safonau;
- gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau i fynd ati'n rhagweithiol i adnabod patrymau ymddwyn amhriodol, eu hystyried, a mynd i'r afael â hwy;
- cydweithio ag arweinwyr grwpiau eraill, o fewn rheswm, i gefnogi gyda'i gilydd safonau ymddygiad uchel o fewn y cyngor, a phan fo unrhyw faterion a nodir yn cynnwys mwy nag un grŵp gwleidyddol.

Mae'r templed wedi'i adolygu a bydd yn cael ei ystyried ar yr agenda heddiw.

### **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam Naddo**

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor: Ddim yn berthnasol**

**Cydweithio: Ddim yn berthnasol**

**Cynnwys: Ddim yn berthnasol**

**Atal: Ddim yn berthnasol**

**Integreiddio: Ddim yn berthnasol**

### **Argymhelliad:**

Nodi'r newid yn y canllawiau statudol ac anstatudol sydd wedi'u cydgrynhoi ar gyfer prif gynghorau yng Nghymru.

**Enw cyswllt:** Lisa Evans

**Swydd:** Swyddog Craffu a Safonau

**Dyddiad yr adroddiad:** 18/10/23

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	<b>Pwyllgor Safonau a Moeseg</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Diweddaraf gan y Swyddog Monitro ar y Cod Ymddygiad – Chwarter 1&amp; 2 2023-2024</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>15 Tachwedd 2023</b>
<b>LLEOLIAD:</b>	<b>Hybrid</b>
<b>Pwrpas:</b>	<b>Er gwybodaeth</b>

**Cefndir**

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol fod y Swyddog Monitro wedi adrodd ar gyfer 2022/2023:

Chwarter 3: Cyfarfod y Pwyllgor 25 Ionawr 2023.

Chwarter 4: Cyfarfod y Pwyllgor 06 Mehefin 2023.

**Pwyllgor:**

- Gofynnwyd gan y Pwyllgor iddynt gael eu hysbysu mewn adroddiadau yn y dyfodol o unrhyw dueddiadau wnaeth gynyddu / ostwng
- Nodwyd y cynnydd yn y blynyddoedd diweddar o dueddiadau sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol a cham-drin ar lein.

**Y sefyllfa gyfredol**

**Y diweddaraf gan y Swyddog Monitro Chwarter 1 & 2 (Ebrill 2023-Medi 2023)** ar weithgaredd y Cod Ymddygiad a thueddiadau diweddar fe y nodwyd isod.

**Cyngor Sir**

- Gostyngiad – Cynghorwyr sy'n glwm wrth Ymchwiliad Heddlu
- Cynnydd – diffyg parch ac ystyriaeth i swyddogion
- Cynnydd - diffyg parch ac ystyriaeth i swyddogion ar gyfryngau cymdeithasol

## Tudalen 112

- Diffyg parch ac ystyriaeth i swyddogion mewn cyfarfodydd cyhoeddus
- Cynnydd - Diffyg parch ac ystyriaeth i swyddogion mewn cyfarfodydd cyhoeddus: iaith amharchus / anfoesgar tuag at swyddogion
- Dwyn gwarth ar enw'r Cyngor – cyfryngau cymdeithasol / y Wasg
- Sylwadau hiliol - ar gyfryngau cymdeithasol
- APW gwaharddiad dros dro x1:6m

Hunan gyfeirio at y Swyddog Monitro:x1

Hysbysiadau Penderfyniad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:x1

### **Cynghorau Tref a Chymuned**

- Cynnydd mewn cwynion sy'n ymwneud ag ymddygiad - diffyg parch ac ystyriaeth tuag at aelodau'r cyhoedd ar gyfryngau cymdeithasol gan gynnwys:  
“sylwadau aneallus ac annymunol”: angen i Gynghorydd ystyried sut y mae sylwadau personol am aelodau'r cyhoedd yn medru cael eu dehongli / canfod gan eraill
- Gostyngiad yn nifer y Cynghorwyr na fu iddynt ddatgan euogfarn neu hunangyfeirio i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Dwyn gwarth ar enw'r Cyngor - cyn Gynghorydd: euogfarn
- Cynnydd: diffyg parch ac ystyriaeth tuag at glerc mewn cyfarfod cyhoeddus
- Ymosodiad mewn lleoliad cyhoeddus
- Sylwadau hiliol

Cyfeiriad y Swyddog Monitro i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: x1

Hysbysiadau Penderfyniad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:x3

### **ARGYMHELLIAD:**

#### **Nodi cynnwys yr adroddiad**

#### **RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD :**

#### **Hysbysu'r Pwyllgor o weithgareddau a thueddiadau diweddaraf y Cod Ymddygiad**



# Tudalen 113

**Contact Name:** Elin Prysor  
**Designation:** Monitoring Officer  
**Date of Report:** 10/10/23

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

## CYNGOR SIR CEREDIGION

<b><u>Adroddiad i'r:</u></b>	<b>Pwyllgor Moeseg a Safonau</b>
<b><u>Dyddiad y cyfarfod:</u></b>	<b>15 Tachwedd 2023</b>
<b><u>Teitl:</u></b>	<b>Adolygu templed asesiad cydymffurfio arweinwyr y grwpiau gwleidyddol</b>
<b><u>Pwrpas yr adroddiad:</u></b>	<b>Sicrhau bod templed asesiad cydymffurfio arweinwyr y grwpiau gwleidyddol yn gyfredol.</b>

### **Cefndir**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 5 Mehefin 2023, ystyriwyd Asesiad Cydymffurfio cyntaf Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol. Roedd Arweinwyr y Grwpiau wedi cwblhau eu hadroddiadau erbyn 20 Ebrill 2023. Ar 15 Mai 2023, cynhaliwyd gweithdy gyda phob un o arweinwyr y grwpiau yn unigol:

- Y Cynghorydd Bryan Davies (Plaid Cymru)
- Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Y Democratiaid Rhyddfrydol)
- Y Cynghorydd Gareth Lloyd (Y Grŵp Annibynnol)

Bu i'r Pwyllgor asesu i ba raddau yr oedd arweinwyr y grwpiau gwleidyddol wedi:

1. cymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp
2. cydweithredu â'r Pwyllgor wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor
3. nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddiant.

### **Y sefyllfa bresennol**

Bu newid yn y canllawiau statudol ac anstatudol sydd wedi'u cydgrynhoi ar gyfer prif gynghorau yng Nghymru. Gallwch weld y newid yn Rhan 2, Adran 6.0, paragraff 6.4 o'r canllawiau.

Mae'r canllawiau wedi'u newid i nodi y dylai'r pwyllgorau safonau (yn hytrach na chadeiryddion y pwyllgorau safonau) gwrdd ag arweinwyr grwpiau ar ddechrau pob blwyddyn gyngor i gytuno ar nifer o faterion.

Mae'r canllawiau diwygiedig wedi'u cyhoeddi ar y gwefannau canlynol:

[Canllawiau statudol ac anstatudol ar ddemocratiaeth o fewn prif gynghorau | LLYW.CYMRU](#)

[Statutory and non-statutory guidance on democracy within principal councils | GOV.WALES](#)

Hefyd, mae'r canllawiau wedi'u rhannu â chi fel rhan o eitem arall sydd ar yr agenda heddiw.

Mae templed yr asesiad cydymffurfio wedi'i adolygu a'i ddiwygio yn wyneb y canllawiau terfynol. Gallwch weld y newidiadau hyn yn y ddogfen honno.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam**

Naddo

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor: Ddim yn berthnasol**

**Cydweithio: Ddim yn berthnasol**

**Cynnwys: Ddim yn berthnasol**

**Atal: Ddim yn berthnasol**

**Integreiddio: Ddim yn berthnasol**

**Argymhelliad:**

Adolygu'r newidiadau a wnaed i dempled asesiad cydymffurfio arweinwyr y grwpiau gwleidyddol a chytuno arnynt.

**Enw Cyswllt:** Lisa Evans

**Swydd:** Swyddog Craffu a Safonau

**Dyddiad yr adroddiad:** 18/10/23

## Cyngor Sir Ceredigion

### Pwyllgor Moeseg a Safonau

#### Dyletswydd Arweinwyr Grwpiau o ran Adrodd

1. Mae Arweinwyr Grwpiau yn destun dwy ddyletswydd statudol newydd:
  - i. Cymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau o'r grŵp
  - ii. Cydweithredu â'r Pwyllgor Safonau wrth arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau.

Formatted: Underline, Font color: Dark Red

Formatted: Font color: Dark Red

#### Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Adran 62

2. O dan gôd ymddygiad y Cyngorwyr, gellid ystyried bod arweinwyr grwpiau sy'n methu â chyflawni'r dyletswyddau yn dwyn anfri ar eu swydd; Nid yw'r ddyletswydd yn gwneud arweinwyr grwpiau yn atebol am ymddygiad eu haelodau.
3. Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau o dan ddyletswydd i:
  - a) fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol y cyngor gyda'u dyletswyddau, a hefyd
  - b) cyngori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

#### Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Adran 63

4. Hefyd mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau o dan ddyletswydd i baratoi adroddiad blynyddol sydd:
  - a) yn gorfod cynnwys asesiad y pwyllgor o'r graddau y mae arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau, a
  - b) gall yr adroddiad gynnwys argymhellion neu sylwadau am hyd a lled y gydymffurfiaeth â'r dyletswyddau newydd hyn.

#### Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Adran 63

5. Mae'r canllawiau ~~drafft~~ a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar y dyletswyddau newydd yn awgrymu'r camau y gellid eu cymryd gan Arweinwyr Grwpiau i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn;  
~~Nid yw "camau rhesymol" a "safonau da" wedi cael eu diffinio hyd yma.~~  
Mae paragraff 4.24 o'r Canllawiau yn nodi'r canlynol:

## Mae'r camau rhesymol y gall Arweinydd y Grŵp eu cymryd yn cynnwys:

- dangos ymrwymiad personol i gyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol ynghylch cydraddoldeb a safonau, gan gynnwys y Cod Ymddygiad, a mynychu a chyfranogi mewn cyfleoedd o'r fath;
- mynd ati'n weithredol i annog aelodau'r grŵp i fynychu cyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol ynghylch cydraddoldeb a safonau, gan gynnwys mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad;
- sicrhau bod enwebeion i bwyllgor wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer cyfranogi yn y pwyllgor hwnnw;
- gosod esiampl o ran moesgarwch a pharch o fewn cyfathrebiadau a phwyllgorau'r grŵp ac mewn pwyllgorau cyngor ffurfiol;
- cefnogi gweithdrefnau datrys anffurfiol yn y cyngor; a gweithio gyda'r pwyllgor safonau a'r swyddogion monitro i ddod i ddatrysiaid yn lleol;
- annog diwylliant o fewn y grŵp sy'n cefnogi safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb;
- mynychu cyfarfod o Bwyllgor Safonau'r Cyngor os gofynnir iddo wneud hynny er mwyn cyfranogi mewn trafodaethau sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad
- bwrw ymlaen â gwaith i weithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynghylch gwella safonau;
- gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau i fynd ati'n rhagweithiol i adnabod patrymau ymddwyn amhriodol, eu hystyried, a mynd i'r afael â hwy;
- cydweithio ag arweinwyr grwpiau eraill, o fewn rheswm, i gefnogi gyda'i gilydd safonau ymddygiad uchel o fewn y cyngor, a phan fo unrhyw faterion a nodir yn cynnwys mwy nag un grŵp gwleidyddol.

6. Rhaid i arweinwyr grwpiau a Phwyllgorau Safonau ystyried Canllawiau Llywodraeth ~~Cymru~~ Cymru (2023);

6. Canllawiau Statudol ac Anstatudol ar gyfer Prif Gyngorau yng Nghymru – darpariaethau ategol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

7. Mae Arweinwyr Grwpiau eisoes yn cymryd camau i atal materion rhag dwysáu a rhoi stop ar broblemau yn gynnwys. Mae'r rhain yn anffurfiol ac yn gyfrinachol ac felly ni ddylid eu hadrodd yn gyhoeddus nac i unigolion;

8. Mae'r templed isod yn seiliedig ar enghreifftiau yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru i atgoffa arweinwyr grwpiau am y materion sydd i'w cynnwys yn eu hadroddiadau;

9. Er mwyn i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau gadw'n annibynnol ar faterion gweithredol, bydd yn gofyn i Arweinwyr Grwpiau adrodd unwaith y flwyddyn.

Formatted: Font:

Formatted: Normal, Indent: Left: 0.63 cm, No bullets or numbering

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt

Bydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cwrdd ag arweinwyr grwpiau ar ddechrau pob blwyddyn gyngor i gytuno ar nifer o faterion,

Formatted: Font:

Mae paragraff 4.36 o'r Canllawiau yn nodi'r canlynol:  
Ar ddechrau pob blwyddyn gyngor, dylai arweinwyr grwpiau gwleidyddol gwrdd â'r Pwyllgor Safonau i gytuno ar yr hyn a ganlyn:

- Sut y bydd arweinwyr grwpiau a'r Pwyllgor Safonau yn cydweithio i sicrhau safonau ymddygiad priodol;
- Amllder y cyfarfodydd rhwng arweinwyr grwpiau a'r Pwyllgor Safonau drwy gydol y flwyddyn;
- Y trothwy y bydd y Pwyllgor Safonau yn ei ddefnyddio i ganfod a yw'n fodlon bod arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â dyletswyddau Deddf 2021;
- Y mecanwaith i arweinwyr grwpiau gwleidyddol ddarparu adroddiadau i'r Pwyllgor Safonau am y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r dyletswyddau yn Neddf 2021.

Formatted: Indent: First line: 1.27 cm

9-

10. Hefyd, bByddai'n syniad i Gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau gwrdd ag arweinwyr y grwpiau o dro i dro i gadw golwg ar ymddygiad yn gyffredinol. Hefyd gall y Cadeirydd ofyn am farn y Swyddog Monitro.
11. Os oes materion eraill o bwys yn codi yn ystod y flwyddyn, neu faterion a allai gael eu codi gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau, megis cael sicrwydd gan Arweinwyr Grwpiau, mae modd rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro am y rhain a bydd hi/ef yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau;
12. Bydd Arweinwyr y Grwpiau yn paratoi eu hadroddiad ar gyfer y cyfarfod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau cyntaf a fydd ar gael ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn;
13. Ni fydd yr adroddiad yn sôn am achosion penodol a bydd yn cyfeirio at y math o gamau a gymerwyd;
14. Bydd y Pwyllgor wedyn yn cwrdd ag arweinydd pob grŵp yn anffurfiol i gnoi cil dros eu hadroddiad. Hefyd gall y Pwyllgor ofyn am farn y Swyddog Monitro.
15. Gall y Pwyllgor roi adborth anffurfiol i arweinwyr grwpiau

Formatted: Font: (Default) Arial, 12 pt

Formatted: Normal, No bullets or numbering

16. Bydd adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys:
- a) crynodeb byr o'r camau a gymerwyd gan arweinwyr grwpiau i gyflawni'r ddyletswydd,
  - b) ei farn ynghylch a wnaed digon,
  - c) unrhyw argymhellion ynglŷn â'r hyn y gall arweinwyr grwpiau ei wneud i gyflawni eu dyletswyddau,
  - d) unrhyw argymhellion ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud i gadw tystiolaeth o gamau arweinwyr grwpiau,
  - e) unrhyw argymhellion o ran yr hyn y gellir ei wneud i wella'r drefn o adrodd,
  - f) pa hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen, os oes yna o gwbl,
  - g) unrhyw ddarnau o waith a allai gael eu gwneud yn y dyfodol, ac ati.
17. Cyflwynir adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf fydd ar gael ar ôl i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau roi ystyriaeth iddo.





<b><u>Hyrwyddo Cydymffurfiaeth â'r Côd Ymddygiad</u></b> I'w lenwi gan y Swyddog Monitro				
Adroddiad gan:				
Grŵp Gwleidyddol:				
Nifer yr Aelodau:		Nifer sydd wedi cael hyfforddiant ar y Côd:	X (Y%)	
Ar gyfer y cyfnod:				
<b><u>Nifer, Ffynhonnell a Lefel y Cwynion</u></b>				
	<b>Anffurfiol</b>	<b>Datrys yn lleol</b>		<b>Ombwdsmon/ Panel Dyfarnu Cymru</b>
Cyhoedd				
Swyddogion				
Cynghorwyr				
<b><u>Camau a gymerwyd i Hyrwyddo Cydymffurfiaeth (i'w lenwi gan Arweinydd y Grŵp)</u></b>				
<u>Gweler paragraffau 4.24 a 4.36 o'r Canllawiau uchod</u>				
Cofiwch gynnwys materion megis y canlynol:				
<ul style="list-style-type: none"> <li>- dangos ymrwymiad personol i gyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol ynghylch cydraddoldeb a safonau, <u>gan gynnwys y cod ymddygiad</u> a mynychu cyfleoedd o'r fath;</li> <li>- <u>mynd ati'n weithredol i</u> annog aelodau'r grŵp i fynychu cyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol ynghylch cydraddoldeb a safonau <u>gan gynnwys mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad</u>;</li> <li>- sicrhau bod enwebeion i bwyllgor wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer <u>cyfranogi yn y</u> pwyllgor hwnnw;</li> <li>- gosod esiampl;</li> <li>- defnyddio eu dylanwad i hybu diwylliant cadarnhaol;</li> </ul>				

- hybu gosod esiampl o ran moesgarwch a pharch o fewn cyfathrebiadau a phwyllgorau'r Grŵp ac ym mhwyllgorau ffurfiol y Cyngor;
- mynd i'r afael â materion cyn gynted ag y byddant yn codi;
- hybu cefnogi gweithdrefnau datrys anffurfiol yn y Cyngor, a gweithio gyda'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Swyddog Monitro i ddod i ddatrasiad yn lleol;
- hybu annog diwylliant o fewn y Grŵp sy'n cefnogi safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb;
- mynychu cyfarfod o Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor os gofynnir iddynt wneud hynny er mwyn trafod cyfranogi mewn trafodaethau am fm materion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad;
- mynychu cyfarfodydd o bryd i'w gilydd gyda'r Swyddog Monitro ac arweinwyr grwpiau eraill;
- mynychu cyfarfodydd rhwng y Swyddog Monitro ac aelodau'r grŵp parthed y Côd Ymddygiad, yn ôl yr angen

- bwrw ymlaen â gwaith i weithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynghylch gwella safonau;
- cydweithio ag arweinwyr grŵp eraill, o fewn rheswm, i gefnogi gyda'i gilydd safonau ymddygiad uchel o fewn y Cyngor, a phan fo unrhyw faterion a nodir yn cynnwys mwy nag un grŵp gwleidyddol.
- Gweithio'n adeiladol gyda'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Swyddog Monitro i nodi'r gofynion hyfforddi ar eu cyfer nhw eu hunain ac aelodau eu grŵp.
- gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau i fynd ati'n rhagweithiol i adnabod patrymau ymddwyn amhriodol, eu hystyried a mynd i'r afael â hwy.

Formatted: Font: Font color: Background 1



Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL****Adroddiad i'r:** Pwyllgor Moeseg a Safonau**Dyddiad y cyfarfod:** 15 Tachwedd 2023**Teitl:** Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023 OS 2023/988**Pwrpas yr adroddiad:** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddiwygiadau i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.**Cefndir**

Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 yn cynnwys gofynion o ran cyfansoddiad Pwyllgorau safonau a phenodi aelodau annibynnol/lleyg i Bwyllgorau Safonau:

[Rheoliadau Pwyllgorau Safonau \(Cymru\) 2001 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

**1)Cynrychiolwyr Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru**

Mae'r canlynol yn gynrychiolwyr Ceredigion ar is-bwyllgor Safonau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fel y cytunwyd gan y Cyngor ar 26<sup>ain</sup> Hydref 2023:

Y Cynghorydd Gwyn Wigley-Evans

Aelod Annibynnol: Carol Edwards

**2)Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023**

Mae Atodiad A yn cynnwys Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023 OS 2023/988 sy'n ymwneud yn benodol â Phwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru.

Effaith Rheoliadau 2023 yw diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 er mwyn cynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn Rheoliadau 2001.

Mae Rheoliadau 2001 yn cynnwys gofynion o ran penodi aelodau annibynnol/lleyg i Bwyllgorau Safonau. Mae hefyd yn cael yr effaith o wahardd penodi i Bwyllgor Safonau lle mae aelod wedi bod yn aelod o Gyd-bwyllgor Corfforedig o'r blaen.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**A oes Aseiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam.**

Nac oes

**Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor:** Amherthnasol

**Cydweithio:** Amherthnasol

**Cynnwys:** Amherthnasol

**Atal:** Amherthnasol

**Integreiddio:** Amherthnasol

**Argymhelliad:**

Nodi'r wybodaeth.

**Enw Cyswllt:** Lisa Evans

**Swydd:** Swyddog Craffu a Safonau

**Dyddiad yr Adroddiad:** 18/10/23

## Cookies on Legislation.gov.uk

The cookies on legislation.gov.uk do two things: they remember any settings you've chosen so you don't have to choose them on every page, and they help us understand how people browse our website, so we can make improvements and fix problems. We need your consent to use some of these cookies.

Yes, these cookies are OK

Find out more or set individual cookie preferences

No, I want to reject all cookies

Cymraeg

Home Browse Legislation New Legislation Coronavirus Legislation Changes To Legislation

Search Legislation

Title:  Year:  Number:  Type:  Search

Advanced Search (including Welsh legislation in Welsh language)

## Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023

Wales Statutory Instruments 2023 No. 988 (Cy. 159) Whole Instrument

Table of Contents Content More Resources ?

Previous

Next

Plain View

Print Options

**Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

### 2023 Rhif 988 (Cy. 159)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023

Gwnaed

11 Medi 2023

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru

13 Medi 2023

Yn dod i rym

9 Hydref 2023

Mae Gweinidogion Cymru(1) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 53(11) ac adran 105(2)(a) a (2)(b) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(2).

#### Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023 a deuant i rym ar 9 Hydref 2023.

#### Diwygiadau i Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001

2. Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

3. Yn rheoliad 2—

- (a) yn y lle priodol mewnosoder "ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("corporate joint committee") yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;"
- (b) yn y diffiniad o "aelod annibynnol"—
- (i) yn is-baragraff (b), ar ôl "swyddog" hepgorer "neu";
- (ii) yn is-baragraff (c), ar ôl "cymuned" mewnosoder ", neu";
- (iii) ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder "(ch) pan fo awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, yn berson sy'n aelod, yn aelod cyfetholedig nac yn swyddog o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw nac o'i awdurdodau cyfansoddol, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol, nac yn briod nac yn bartner sifil i'r aelod, yr aelod cyfetholedig neu'r swyddog hwnnw;"
- (c) yn y diffiniad o "aelod panel lleyg"—
- (i) yn is-baragraff (a), ar ôl "cymuned," hepgorer "neu";
- (ii) yn is-baragraff (b), ar ôl "cymuned" hepgorer ";" a mewnosoder ", neu";
- (iii) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—
- "(c) pan fo'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig,
- (i) sy'n aelod o awdurdod cyfansoddol nad yw'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod hwnnw, neu
- (ii) sy'n aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol nad yw'n aelod cymwys o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw;"
- (d) yn y diffiniad o "awdurdod perthnasol"—
- (i) yn is-baragraff (c) hepgorer "ac";
- (ii) yn is-baragraff (ch), ar ôl "achub" hepgorer ";" a mewnosoder ", a";
- (iii) ar ôl is-baragraff (ch) mewnosoder "(d) cyd-bwyllgor corfforedig;"

4. Yn rheoliad 4—

- (a) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

# Tudalen 128

(aa) pan fo'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, aelodau o awdurdodau cyfansoddol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol y cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw ond nid aelodau cyfetholedig o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw heblaw'r rhai a gyfetholwyd ar gyfer aelodaeth o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw.;

(b) ym mharagraff (c), ar ôl "cymunedol" mewnosoder "ac eithrio pan fo'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig".

## 5. Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (1), hepgorer "Rhaid" a mewnosoder "Yn ddarostyngedig i (1A), rhaid";

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Pan fo'r awdurdod perthnasol y cyfeirir ato yn rheoliad 6(1) yn gyd-bwyllgor corfforedig, rhaid i berson sydd wedi bod yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig neu'n aelod o awdurdod cyfansoddol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, ond nad yw'n aelod mwyach, beidio â bod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw.;"

(c) ym mharagraff (2), ar ôl "nad yw'r person hwnnw wedi bod yn aelod ohono" mewnosoder ", ond, pan fo'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, ni chaiff y person fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau nrhwy awdurdod cyfansoddol nac Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw".

## 6. Yn rheoliad 7—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer "Rhaid" a mewnosoder "Yn ddarostyngedig i (1A), rhaid";

(ii) yn y testun Cymraeg, ar ôl "nad yw'n yn lle "aelod" rhodder "swyddog";

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Pan fo'r awdurdod perthnasol y cyfeirir ato yn rheoliad 7(1) yn gyd-bwyllgor corfforedig, rhaid i berson sydd wedi bod yn swyddog o gyd-bwyllgor corfforedig neu'n swyddog o awdurdod cyfansoddol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw, ond nad yw'n swyddog ohono mwyach, beidio â bod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw.;"

(c) ym mharagraff (2), yn lle ", ond nad yw'n aelod mwyach" rhodder "neu, os yw'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, yn swyddog o'i awdurdodau cyfansoddol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol, ond nad yw'n swyddog mwyach".

## 7. Yn rheoliad 8, ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Pan fo awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, rhaid i gadeirydd awdurdod o'r fath beidio â bod yn aelod o bwyllgor safonau'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw".

## 8. Yn rheoliad 18—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) ar ôl "aelod o'r awdurdod hwnnw" mewnosoder

", neu aelod o bwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig sy'n aelod o awdurdod cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw.;"

(ii) ar ôl "ar gyfer yr awdurdod" mewnosoder "neu'r awdurdod cyfansoddol";

(b) ym mharagraff (2), ar ôl "awdurdod lleol o dan sylw" mewnosoder ", neu, yn achos cyd-bwyllgor corfforedig, o awdurdod cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw.;"

## 9. Yn rheoliad 19, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) Pan fo awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, rhaid i gyfnod swydd aelod o bwyllgor safonau'r awdurdod hwnnw sy'n aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol yr awdurdod hwnnw beidio â bod yn hwy na'r cyfnod tan y bydd aelodaeth yr aelod hwnnw o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol yn dod i ben, a bydd aelodaeth aelod o'r fath o'r pwyllgor safonau hwnnw yn dod i ben os yw aelodaeth yr aelod hwnnw o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol hwnnw yn dod i ben."

10. Yn rheoliad 21(1), ar ôl "aelod o'r awdurdod hwnnw.", mewnosoder "neu, pan fo'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, sy'n aelod o awdurdod cyfansoddol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol o'r cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw.;"

11. Yn rheoliad 23(1), yn lle "neu'r awdurdodau perthnasol o dan sylw" rhodder "na'r awdurdodau perthnasol o dan sylw neu, pan fo'r awdurdod perthnasol yn gyd-bwyllgor corfforedig, nad yw'n aelod o'i awdurdodau lleol cyfansoddol nac o'i Awdurdod Parc Cenedlaethol cyfansoddol".

## 12. Yn rheoliad 25—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl "pwyllgor safonau" mewnosoder ", ac eithrio pwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig.;"

(b) ym mharagraff (2), ar ôl "pwyllgor safonau" mewnosoder ", ac eithrio pwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig.;"

(c) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Rhaid i bwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig gynnal o leiaf un cyfarfod yn ystod pob cyfnod o 12 mis ar ôl i'r pwyllgor safonau cyd-bwyllgor corfforedig hwnnw gael ei sefydlu."

## 13. Yn rheoliad 26, mewnosoder—

"(10) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i gyd-bwyllgorau corfforedig."

## 14. Yn rheoliad 27, mewnosoder—

"(5) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i gyd-bwyllgorau corfforedig."

## 15. Yn rheoliad 28, mewnosoder—

"(3) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i gyd-bwyllgorau corfforedig."

Rebecca Evans

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

11 Medi 2023

## NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 at y diffiniad o "awdurdod perthnasol" yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001").

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau 2001 i ddarparu ar gyfer maint, cyfansoddiad, a thrafodion pwyllgorau safonau cyd-bwyllgorau corfforedig a chywirow gwallau yn y testun Cymraeg.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a rheoliadau a gorchmynion cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar adeg gwneud y rheoliadau sefydlu hynny a dibynnir arno at ddioben y Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(1) Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(2)



# Tudalen 129

2000 p. 22. Fe'i diwygiwyd gan O.S. 2022/372 (Cy. 92); mewnosododd rheoliad 3 gyd-bwyllgorau corfforedig yn y diffiniad o "relevant authority" yn adran 49 o Ddeddf 2000 a diwygiodd adran 53 o'r Ddeddf honno. Mae adran 49 wedi ei chynnwys yn Rhan 3 o Ddeddf 2000 ac mae'n ymwneud ag ymddygiad aelodau a chyflogeion llywodraeth leol.

(3) O.S. 2001/2283 (Cy. 172); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2005/2929 (Cy. 214), O.S. 2005/3302 (Cy. 256), O.S. 2006/362 (Cy. 48), O.S. 2006/1849 (Cy. 192), O.S. 2007/95 1 (Cy. 82), O.S. 2013/3005 (Cy. 297), O.S. 2014/3061, O.S. 2016/85 (Cy. 39), O.S. 2021/356 (Cy. 107), O.S. 2022/533 (Cy. 125).

[Previous](#) | [Next](#)

[Help](#) [About Us](#) [Site Map](#) [Accessibility](#) [Contact Us](#) [Privacy Notice](#) [Cookies](#)

[Back to top](#)

**OGI** All content is available under the [Open Government Licence v3.0](#) except where [otherwise stated](#). This site additionally contains content derived from EUR-Lex, reused under the terms of the [Commission Decision 2011/833/EU](#) on the reuse of documents from the EU institutions. For more information see the [EUR-Lex public statement on re-use](#). © Crown and database right

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Moeseg a Safonau  
**Dyddiad y cyfarfod:** 15 Tachwedd 2023  
**Teitl:** Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru  
**Pwrpas yr adroddiad:** I ddiweddarau'r Pwyllgor ar faterion Panel Dyfarnu Cymru

**Cefndir**

Mae Panel Dyfaru Cymru yn dribiwnlys annibynol sydd wedi'i sefydlu er mwyn penderfynu ar achosion honedig o dorri rheolau yn erbyn Cod Ymddygiad statudol yr awdurdod gan aelodau etholedig a cyfetholedig Sir Cymru, Cyngorau Bwrdeistref Sirol a Chyngorau Cymuned, Awdurdod Tân ac Awdurdod y Parciau Ceneldaethol.

**Adroddiad Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion**

**Enw:** Y Cynghorydd Steve Davies

**Rhif Cyfeirnod:** APW/014/2022-023/CT

**Awdurdod perthnasol:** Cyngor Sir Ceredigion

**Natur yr honiad:** Torri rheolau paragraffau 4(b), 4(c), 6(1)(a) a 7(a),

**Gwrandawriad:** 10 Gorffennaf 2023

**Penderfyniad y Tribiwnlys:** Gwahardd dros dro am 6 mis

[Panel Dyfarnu Cymru \(gov.wales\)](#)

**Adroddiadau eraill o ddiddordeb i'r Pwyllgor**

**Enw:** Y Cyn-gynghorydd Karen Laurie-Parry

**Rhif Cyfeirnod:** APW/013/2022-023/CT

**Adurdod perthnasol:** Cyngor Sir

**Natur yr honiad:** Torri rheolau paragraffau 4(b), 4(c), 5(a), 6(1)(a), 6(1)(d), 7(b)(i) a 7(b)(iv)

**Gwrandawriad:** 6 Gorffennaf 2023

**Penderfyniad y Tribiwnlys:** Gwahardd am 18 mis

[apw-decision-notice-karen-parry.pdf \(gov.wales\)](#)

**Enw:** Y Cyn-gynghorydd Donald Jenkins

**Rhif cyfeirnod:** APW/001/2023-024/CT

**Awdurdod perthnasol:** Cyngor Cymuned St Harmon

**Natur yr honiad:** Torri rheolau paragraff 6(1)(a) a 7(a)

**Gwrandawriad:** 4 Gorffennaf 2023

**Penderfyniad y Tribiwnlys:** Gwahardd am 15 mis

[apw-decision-notice-donald-jenkins.pdf \(gov.wales\)](#)

**Enw:** Y Cyn-gynghorydd Chris Evans

**Rhif cyfeirnod:** APW/015/2022-023/CT

**Awdurdod perthnasol:** Cyngor Dinas Casnewydd

**Natur yr honiad:** Torri rheolau paragraffau 6(1)(a) a 7(a)

**Gwrandawriad:** 23 Mehefin 2023

**Penderfyniad y Tribiwnlys:** Gwahardd am 9 mis

[apw-decision-report-chris-evans.pdf \(gov.wales\)](#)

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam.**

Na

**Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor:** N/A

**Cydweithio:** N/A

**Cynnwys:** N/A

**Atal:** N/A

**Integreiddio:** N/A

**Argymhelliad / Argymhellion:**

Nodi cynnwys yr adroddiad.

**Enw Cyswllt:** Lisa Evans

**Teitl Swydd:** Swyddog Craffu a Safonau

**Dyddiad yr Adroddiad:** 25/10/23

**Acronymau:**

**CYNGOR SIR CEREDIGION****Adroddiad i'r:** Pwyllgor Moeseg a Safonau**Dyddiad yr adroddiad:** 15 Tachwedd 2023**Teitl:** Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 22/23, Adroddiad Blynyddol OGCC 22/23 a Hysbysiadau o Benderfyniad OGCC**Diben yr adroddiad:** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am faterion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**1) Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2022/23)**

Mae Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2022/23) ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys cwynion yn ymwneud â chamweinyddu a methiant gwasanaeth, cwynion yn ymwneud ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Dywed yr Ombwdsmon:

“Cawsom lai o gwynion y Cod Ymddygiad yn 22/23 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn ymwneud â Phrif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned. Mae fy rôl yn golygu nad wyf yn gwneud canfyddiadau terfynol am dorri'r Cod Ymddygiad. Yn lle hynny, pan fydd ymchwiliadau yn canfod y pryderon mwyaf difrifol, caiff y rhain eu cyfeirio at Bwyllgor Safonau'r awdurdod lleol perthnasol, neu at Banel Dyfarnu Cymru. Yn 2022/23, gwnaeth yr Ombwdsmon 12 atgyfeiriad o'r fath - gostyngiad i'w groesawu o 20 y llynedd.”

Mae Atodiad E yn dangos canlyniadau cwynion Cod Ymddygiad a gaewyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymwneud â'r Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol:

Appendix E - Code of Conduct Complaints

Ceredigion County Council

Investigations	Decision not to investigate	0
	Discontinued	1
	No evidence of breach	0
	No action necessary	0
	Refer to Adjudication Panel	1
	Refer to Standards Committee	0
	<b>Total</b>	<b>2</b>

Mae Atodiad F yn dangos canlyniadau cwynion Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC sy'n ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol yn

2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y nifer, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer pob Cyngor Tref neu Gymuned:

Appendix F - Town/Community Council Code of Complaints

Town/Community Council	Decision not to investigate	Discontinued	No evidence of breach	Investigations			Total
				No action necessary	Refer to Adjudication Panel	Refer to Standards Committee	
Llandysul Community Council	1	0	0	0	0	0	1
Llanfair Clydogau Community Council	0	0	0	0	0	0	0
Llanogedmor Community Council	0	0	0	0	0	0	0
Llansanffraed Community Council	0	0	0	0	0	0	0
New Quay Town Council	0	0	0	0	0	0	0
Trefeurig Community Council	0	0	0	0	0	0	0

Yn dilyn ymholiad a godwyd gan y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol ar 19 Hydref, holwyd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch y data yn Atodiad F, gan mai "0" oedd y data ar gyfer 5 Cyngor Tref/Cymuned.

Atebodd OGCC:

"Rydym yn cadw cynghorau tref sydd â 0/sero o achosion yn y flwyddyn yn y llythyr blynyddol os oedd achosion y flwyddyn flaenorol, mae hyn er mwyn i Gynghorau allu olrhain patrymau a chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roeddem hefyd yn meddwl bod y dull hwn yn rhoi sicrwydd fel bod y Cyngor yn gwybod inni gofnodi dim achosion ar gyfer y llynedd. Wedi dweud hynny, byddwn yn cadw hyn mewn cof ac os oes unrhyw adborth ychwanegol gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar ôl ei gyfarfod rhowch wybod i ni. Gan fod y Llythyr Blynyddol yn adrodd ar ein gwaith yn ystod 2022/23 yn unig, bydd yr achosion rydym wedi gweithio arnynt yn ystod blwyddyn ariannol 23/24 yn cael eu hadrodd yn yr adroddiad blynyddol a'r llythyrau blynyddol y byddwn yn eu cyhoeddi y flwyddyn nesaf."

## **2) Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon**

Gellir gweld 'Blwyddyn o newid – blwyddyn o her', Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2022/23 yr Ombwdsmon, drwy'r ddolen ganlynol:

<https://www.ombwdsmon.cymru/wp-content/uploads/sites/2/2023/08/Adroddiad-a-Chyfrifon-Blynyddol-2022-23-19-07-2023-gyda-llofnod.pdf>

Tynnir sylw'r Pwyllgor at y tudalennau canlynol sy'n cyfeirio at y Cod, tudalennau 9,10,13,14, 24-28:

- Roedd 61% o gwynion y Cod Ymddygiad am hyrwyddo cydraddoldeb a pharch.
- Gwnaethom ymchwilio eleni i gyfran ychydig yn is o gwynion Cod Ymddygiad na'r llynedd. Yn ogystal, gwnaethom gyfeirio llai o gwynion at Banel Dyfarnu Cymru a Phwyllgorau Safonau. Mae hyn yn gadarnhaol, gan ei fod yn awgrymu ein bod wedi gweld llai o achosion difrifol iawn o dorri'r Cod.
- Yn gyffredinol, dim ond cyfran fach o'r cwynion a gawn sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad yr ydym yn ymchwilio iddynt. Mae hyn yn dangos bod y safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yn dda ar y cyfan.

Ar dudalen 27, cyfeirir hefyd at Gyngor Cymuned yng Ngheredigion (yng nghyd-destun atgyfeirio i Banel Dyfarnu Cymru):

“Cafodd cyn-aelod o Gyngor Cymuned Llansanffraid ei wahardd rhag dal swydd fel cynghorydd am ei fod wedi dwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd, ar ôl cael ei ddyfarnu'n euog o'r drosedd o achosi niwed corfforol drwy 'yrru'n wyllt ac yn beryglus', yn groes i Adran 35 Deddf Troseddau Corfforol 1861. Gallwch ddarllen am y penderfyniad hwn ar wefan y Panel Dyfarnu fan hyn: [APW/009/2021-022/AT: Cynghorydd Blaenorol Caryl Vaughan | Panel Dyfarnu Cymru \(Ilyw.cymru\)](https://www.apw.gov.wales/APW/009/2021-022/AT:CynghoryddBlaenorolCarylVaughan|PanelDyfarnuCymru(Ilyw.cymru)).”

### 3) Hysbysiadau o Benderfyniad

Mae OGCC bellach yn cyhoeddi Hysbysiadau o Benderfyniad mewn amgylchiadau lle mae'r Ombudsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio.

Bydd hyn oherwydd na fodlonwyd y prawf dau gam:

- i) Dim tystiolaeth uniongyrchol o dorri'r Cod, a
- ii) nid oedd er budd y cyhoedd i ymchwilio.

Mae'r prawf hwn wedi'i nodi yng Nghanllawiau OGCC:

[General : 27 FINAL Investigation Report Template s21 casework support only \(ombudsman.wales\)](https://www.ombudsman.wales/General:27FINALInvestigationReportTemplate_s21caseworksupportonly)

Ymchwiliadau: Asesu Budd y Cyhoedd

Mae 4 Hysbysiad o Benderfyniad wedi'u cyhoeddi gan OGCC ar gyfer Cyngorwyr Ceredigion yn ystod Ch1 a 2 23/24.

Ni ellir cyhoeddi'r rhain na'u rhoi yn y parth cyhoeddus ond gellir eu cyflwyno i'r Pwyllgor er gwybodaeth yn unig, naill ai drwy e-bost yn gyfrinachol, neu fel eitem agenda eithriedig. Gofynnir am farn y Pwyllgor ar y ffordd orau o gyflwyno'r rhain yn y dyfodol.

### Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**

Naddo

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor: Amherthnasol**

**Cydweithio: Amherthnasol**

**Cynnwys: Amherthnasol**

**Atal: Amherthnasol**

**Integreiddio: Amherthnasol**

**Argymhellion:** Gofynnir i'r Pwyllgor:

1) Nodi cynnwys Llythyr Blynyddol OGCC 22/23 ac Adroddiad Blynyddol 22/23 OGCC

2) Ystyried:

- a) a yw Aelodau'n dymuno derbyn gwybodaeth ynghylch Hysbysiadau o Benderfyniad OGCC, ac
- b) os felly, a yw Aelodau'n dymuno i Hysbysiadau o Benderfyniad gael eu cylchredeg drwy e-bost cyfrinachol neu eu cyflwyno i'r Pwyllgor fel eitemau eithriedig.

**Enw Cyswllt:** Elin Prysor

**Swydd:** Swyddog Monitro

**Dyddiad yr Adroddiad:** 25/10/23

**Acronymau:**



**CYNGOR SIR CEREDIGION****Adroddiad i'r:** Pwyllgor Moeseg a Safonau**Dyddiad y cyfarfod:** 15 Tachwedd 2023**Teitl:** Canfyddiadau Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**Diben yr adroddiad:** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am faterion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**Cefndir**

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau, o dan ddarpariaethau Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno. Mae'r canlynol yn benderfyniadau a gyhoeddwyd ers y cyfarfod diwethaf.

**Dyletswydd i gynnal y gyfraith: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Dyddiad yr adroddiad 07/09/2023

Pwnc Dyletswydd i gynnal y gyfraith

Canlyniad COD

Cyfeirnod yr achos 202205954

Math o adroddiad COD – Dim angen gweithredu

Corff perthnasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

[Gweld yr adroddiad](#)**Hybu cydraddoldeb a pharch : Cyngor Cymuned y Mwmbwls**

Dyddiad yr adroddiad 21/03/2023

Pwnc Hybu cydraddoldeb a pharch

Canlyniad COD

Cyfeirnod yr achos 202106588

Math o adroddiad COD - Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau

Corff perthnasol Cyngor Cymuned y Mwmbwls

[Gweld yr adroddiad](#)

## **Hybu cydraddoldeb a pharch : Cyngor Cymuned y Mwmbwls**

Dyddiad yr adroddiad 21/03/2023

Pwnc Hybu cydraddoldeb a pharch

Canlyniad COD

Cyfeirnod yr achos 202106524

Math o adroddiad COD - Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau

Corff perthnasol Cyngor Cymuned y Mwmbwls

[Gweld yr adroddiad](#)

## **Hybu cydraddoldeb a pharch : Cyngor Tref Bae Colwyn**

Dyddiad yr adroddiad 30/03/2023

Pwnc Hybu cydraddoldeb a pharch

Canlyniad COD

Cyfeirnod yr achos 202205087

Math o adroddiad COD – Rhoddwyd y gorau

Corff perthnasol Cyngor Tref Bae Colwyn

[Gweld yr adroddiad](#)

## **Dyletswydd i gynnal y gyfraith : Cyngor Tref y Barri**

Dyddiad yr adroddiad 30/03/2023

Pwnc Dyletswydd i gynnal y gyfraith

Canlyniad COD

Cyfeirnod yr achos 201806120

Math o adroddiad COD – Rhoddwyd y gorau

Corff perthnasol      Cyngor Tref y Barri

[Gweld yr adroddiad](#)

**Hybu cydraddoldeb a pharch : Cyngor Sir Caerfyrddin**

Dyddiad yr adroddiad      30/03/2023

Pwnc                      Hybu cydraddoldeb a pharch

Canlyniad                COD

Cyfeirnod yr achos      202201203

Math o adroddiad      COD – Dim angen gweithredu

Corff perthnasol      Cyngor Sir Caerfyrddin

[Gweld yr adroddiad](#)

**Hybu cydraddoldeb a pharch : Cyngor Cymuned Solfach**

Dyddiad yr adroddiad      30/03/2023

Pwnc                      Hybu cydraddoldeb a pharch

Canlyniad                COD

Cyfeirnod yr achos      202201039

Math o adroddiad      COD – Dim angen gweithredu

Corff perthnasol      Cyngor Cymuned Solfach

[Gweld yr adroddiad](#)

**Dyletswydd i gynnal y gyfraith : Cyngor Tref y Barri a Chyngor Bro Morgannwg**

Dyddiad yr adroddiad      30/03/2023

Pwnc                      Dyletswydd i gynnal y gyfraith

Canlyniad                COD

Cyfeirnod yr achos      201806120

Math o adroddiad      COD – Rhoddwyd y gorau

Corff perthnasol Cyngor Tref y Barri a Chyngor Bro Morgannwg

[Gweld yr adroddiad](#)

**Dyletswydd i gynnal y gyfraith : Cyngor Tref y Barri a Chyngor Bro Morgannwg**

Dyddiad yr adroddiad 30/03/2023

Pwnc Dyletswydd i gynnal y gyfraith

Canlyniad COD

Cyfeirnod yr achos 201805958

Math o adroddiad COD - Rhoddwyd y gorau

Corff perthnasol Cyngor Tref y Barri a Chyngor Bro Morgannwg

[Gweld yr adroddiad](#)

**Dyletswydd i gynnal y gyfraith : Cyngor Cymuned St Harmon**

Dyddiad yr adroddiad 31/03/2023

Pwnc Dyletswydd i gynnal y gyfraith

Canlyniad COD

Cyfeirnod yr achos 202106161

Math o adroddiad COD - Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu

Corff perthnasol Cyngor Cymuned St Harmon

[Gweld yr adroddiad](#)

**Dyletswydd i gynnal y gyfraith : Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd**

Dyddiad yr adroddiad 03/05/2023

Pwnc Dyletswydd i gynnal y gyfraith

Canlyniad COD

Cyfeirnod yr achos 202105443

Math o adroddiad COD - Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau

Corff perthnasol Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd

[Gweld yr adroddiad](#)

**Dyletswydd i gynnal y gyfraith : Cyngor Tref Abergele**

Dyddiad yr adroddiad 15/05/2023

Pwnc Dyletswydd i gynnal y gyfraith

Canlyniad COD

Cyfeirnod yr achos 202107167

Math o adroddiad COD – dim angen gweithredu

Corff perthnasol Cyngor Tref Abergele

[Gweld yr adroddiad](#)

**Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch: Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

Dyddiad yr adroddiad 28/06/2023

Pwnc Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch

Canlyniad COD

Cyfeirnod yr achos 202106025

Math o adroddiad COD - Dim tystiolaeth o dorri'r Cod

Corff perthnasol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

[Gweld yr adroddiad](#)

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**

Naddo

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor: Amherthnasol**

